

Saffari Bywyd Gwyllt Porthdinllaen

Mae Porthdinllaen a Nefyn yn ardaloedd llawn hanes morwrol sy'n dyddio ôl sawl canrif. Mae'r traethau tywodlwyd cysgodol, clogwyni meddal, a'r glannau creigiog yn cynnal amrywiaeth o fywyd gwyllt. Mae'r gwely morwellt ym Mhorthdinllaen yn gynefin ac yn ffynhonnell fwyd i sawl rhywogaeth ac yn cynnal llawer o fywyd gwyllt y môr. Mewn arolwg diweddar, cofnodwyd 40 rhywogaeth wahanol o bysgod yn y bae ym Mhorthdinllaen yn unig. Mae'r creigiau meddal gyda'u ffynhonnau a'u rhuthrau dŵr yn wych ar gyfer pryfed gwlyptir ac yn lle diogel i wrenol y glennydd nythu. Ar ddiwrnod clir, mae'r golygfeydd yn ymestyn ar draws y bae tuag at Nant Gwrtheyrn a'r Eifl, a thua'r gogledd, lle gallwch weld Caergybi, ac yna yn ôl tuag at ganol Llŷn lle mae Garnfadryn i'w weld yn y pellter.

Wrth i chi gerdded ar hyd llwybr yr arfordir tuag at y pentir, mae hi'n bosib y gwelwch chi forloi llwyd yn sbecian drwy'r tonnau, criw o biod y môr yn pigo ar hyd y cwrs golff neu huganod yn plymio i'r môr i chwilio am fwyd. Os yw'r llanw'n ddigon isel, gallwch archwilio'r pyllau glan môr sydd wedi'u lleoli mor gyfleus yn y pentref wrth ymyl Tŷ Coch. Mae'r bydoedd bach rhyfeddol hyn yn gartref i bysgod fel y gobi a mathau cyffredin a llai cyffredin o lyfrothod. Ymysg y trysorau eraill y gallech chi eu gweld mae'r anemoni nadreddog gwyrdd hardd, crancod gwyrdd neu'r corgimwch cyffredin.

Porthdinllaen Wildlife Safari

Porthdinllaen and Nefyn have a rich maritime history and their soft cliffs, sheltered sandy beaches and rocky shores support a diversity of wildlife. The seagrass bed at Porthdinllaen provides habitat and a food source for several species, creating a foundation for much of the marine wildlife. 40 different species of fish were recorded in a recent survey in the bay at Porthdinllaen alone. The soft cliffs with springs and flushes are superb for specialist wetland insects and a safe location for sand martin to make their nests. On a clear day, the views from the headland sweep across the bay towards Nant Gwrtheyrn and yr Eifl, to the north where Holyhead is often visible and back towards the centre of Llŷn, where you can make out the solitary outline of Garnfadryn.

As you walk the coast path towards the headland you might see the bobbing heads of grey seals, a parcel of oyster catchers pecking away on the golf course or diving gannets fishing for food. If the tide is low enough you can explore some of the rockpools, conveniently situated in the village near the Tŷ Coch. These amazing miniature worlds are home to fish like the gobies and blennies or less commonly butterfly. The beautiful snake lock anemone, shore crab or common prawn are other treasures you might see.

live 

ecoamgueddfa



Saffari Bywyd Gwyllt Porthdinllaen Porthdinllaen Wildlife Safari



www.ecomuseumlive.eu
www.ecoamgueddfa.org

Pioden Fôr

Mae'r bioden fôr yn aderyn hirgoes sydd i'w weld hyd y rhan fwyaf o arfordir y DU drwy gydol y flwyddyn. Mae'n aderyn hawdd iawn ei adnabod gyda'i big oren hir, ei goesau pinc a'i gorff byrddew du a gwyn. Efallai y byddwch chi'n clywed galwad 'pip pip' uchel yr aderyn hwn cyn ei weld. Ffordd o gysylltu â'i gymar yw hyn gan amlaf neu efallai fod yr aderyn yn gwneud sŵn er mwyn drysu ysglyfaethwr posib. Er fod enw Saesneg yr aderyn awgrymu ei fod yn bwyta wystrys, mewn gwirionedd anaml y bydd y bioden fôr yn gwneud hyn. Cregyn gleision a chocos yw ei brif fwyd ac mae'n defnyddio ei big hir fflat cryf fel lifer i'w gwrthio'n agored.

Gwennol y glennydd

Mae'r rhain yn adar mudol sy'n dod i'r Deyrnas Unedig yn y gwanwyn yr holl ffordd o Affrica. Maen nhw'n nythu ar hyd glannau afonydd neu mewn chwarel ond yma ym Mhorthdinllaen gallwch eu gweld yn hedfan i mewn ac allan o'u twnelau ar hyd wyneb meddal y clogwyni. Mae eu twnelau yn gallu bod cyn ddyfned â metr ac yn y pendraw mae 'na siambr lle maen nhw'n dodwy pedwar neu bump o wyau mewn nyth wedi'i wneud o wellt. Gallwch eu gweld yn bwydo ar bryfetach ar hyd y llethr arfordirol a'r cwrs golff neu'n gwibio i mewn ac allan o'u twnelau wrth iddyn nhw fwydo eu cywion ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

Morwellt

Planhigyn blodeuol sy'n byw dan y dŵr yw hwn. Y gwely morwellt ym Mhorthdinllaen yw un o'r rhai mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gynefin gwych ar gyfer creaduriaid y môr, a physgod ifanc yn arbennig. Cadwch eich llygaid ar agor i weld morwellt sydd wedi

cael ei olchi i'r lan ar hyd y draethlin. Mae'n wahanol iawn i wyonon ac wrth edrych yn ofalus, byddwch yn sylwi ar wreiddiau, coesau a dail hir gwyrdd (neu frown) y planhigyn.

Cranc meudwy

Mae'r cramenogion hyn yn ymgartrefu mewn cregyn gwag, gan ganfod a symud i fyw mewn cregyn mwy wrth iddynt dyfu. Mae'r cranc meudwy yn greadur hollysol, hynny yw, mae'n bwyta planhigion ac anifeiliaid yn bennaf, gan gynnwys tameidiau o greaduriaid wedi marw, cregyn gleision a chregyn cylchog microsgopig yn ogystal â morwial a morwellt hyd yn oed. Chwliwch am gregyn ar hyd y glannau creigiog, ond cofiwch edrych yn ofalus - efallai bod cranc meudwy yn byw y tu mewn iddynt.

Môr-wennol gyffredin


Adar mudol yr haf yw'r rhain ac maen nhw i'w gweld rhwng mis Ebrill a mis Medi. Maen nhw'n bridio ar draethau graeanog, ar nysoedd creigiog neu yng nghefn gwlad mewn cronfeydd dŵr neu hyd lannau afonydd. Mae ganddynt adenydd hir, cul, pig syth a chynffon fforchog a'r nodweddiad hyn a'r ffordd maen nhw'n symud sydd i gyfrif am eu henw. Mae eu cyrff yn wyn oddi tanynt ac mae ganddynt gefn llwyd, gyda chap du llawn neu rannol ac mae blaen eu pig oren cochlyd yn ddu. Maen nhw i'w gweld yn hofran uwchben y môr ac yn defnyddio eu chwimder anhygoel i blymio i'r môr i ddal pysgod yn awr ac yn y man.




Cranc meudwy
Hermit crab



Gwennol y glennydd
Sand Martin



Morwellt
Seagrass



Pioden Fôr
Oystercatcher



Môr-wennol gyffredin
Common tern

The Big 5!

Oystercatcher

The oystercatcher is a wading bird found around most of the UK's coastline and can be seen throughout the year. This bird is very recognisable, with its long orange-red beak, reddish-pink legs, and stocky black and white body. You might hear the loud 'peeping pip pip' call before you see this bird, normally either a contact call to a mate, or an anxious alarm call to distract any potential predators. Contrary to its name, the oystercatcher rarely eats oysters and feeds mostly on mussels and cockles, using their long flat robust bills to prise them open.

Sand Martin

These are migratory birds coming to the United Kingdom in spring all the way from Africa. They nest along riverbanks or quarries but at Porthdinllaen can be seen flying in and out of their tunnels on the soft cliff faces. The tunnels they dig can be up to a meter deep with a chamber at the end where they lay four or five eggs within a grassy nest. You can see them feeding on small insects along the coastal slope and golf course or zipping in and out of their tunnels feeding their young in June and July.

Seagrass

This is a flowering plant that lives underwater. The seagrass bed at Porthdinllaen is one of the biggest in Wales, providing a fantastic habitat for marine creatures, especially juvenile fish. Look out for seagrass washed up in the strandline on the beach, it is quite different to seaweed and if you look closely, you'll notice the long green (or brown) blades, stems and roots.

Hermit crab

These crustaceans live inside empty shells which they make into their home, finding bigger shells and moving home as they grow. Hermit crabs are omnivores meaning they eat plants and animals, including bits of dead creatures, microscopic mussels and clams as well as kelp and even seagrass. Have a look for shells along the rocky shore, look carefully there may be a hermit crab living inside.

Common tern

These birds are summer migrants and can be seen between April and September. They breed on shingle beaches, rocky islands or inland at reservoirs or along rivers. These birds have long narrow wings, a straight bill and forked tail; because of this and the way they move they have the nickname 'sea swallow'. With a white-grey body and full or partial black cap their orange-red beaks have a black tip. They can be seen hovering above the sea, using their incredible agility diving to catch fish every so often.

